OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 440 (Cy. 85)

2025 No. 440 (W. 85)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru) 2025

The Children Act 2004 (Children Missing Education Database) (Pilot) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i sefydlu a gweithredu cronfa ddata plant sy'n colli addysg ("PCA") yng Nghymru.

Bydd yn ofynnol i awdurdod lleol peilot (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1) ac Atodlen 1) sefydlu a gweithredu cronfa ddata PCA (rheoliad 3) a fydd yn cynnwys yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau mewn cysylltiad â phlant o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol peilot.

Bydd yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol a chontractwr gwasanaethau meddygol cyffredinol yng Nghymru ddatgelu i awdurdod lleol peilot wybodaeth benodol a bennir yn Atodlen 2 ac a ddelir ganddynt (rheoliad 4). Rhaid i awdurdod lleol peilot gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr wybodaeth yn y gronfa ddata yn gywir (rheoliad 5).

Mae rheoliadau 6 i 11 yn manylu ar yr achlysuron pan fydd rhaid dileu enw plentyn o gronfa ddata PCA.

Mae rheoliad 12 yn manylu ar bwy y caniateir iddo gael mynediad at y gronfa ddata ac ar gyfer pa swyddogaethau addysg y caniateir ei defnyddio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Tegwch mewn Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations apply to the establishment and operation of a children missing education ("CME") database in Wales.

A pilot local authority (as defined in regulation 2(1) and Schedule 1) will be required to establish and operate a CME database (regulation 3) that will contain the information set out in Schedule 2 to the Regulations in respect of children of compulsory school age who are ordinarily resident in the pilot local authority's area.

A Local Health Board and general medical services contractor in Wales will be required to disclose to a pilot local authority certain information specified in Schedule 2 that is held by them (regulation 4). A pilot local authority must take reasonable steps to ensure that the information in the database is accurate (regulation 5).

Regulations 6 to 11 detail the occasions when a child's name must be removed from a CME database.

Regulation 12 details who may have access to the database and for which education functions it may be used.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Equity in Education, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 440 (Cy. 85)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru) 2025

Gwnaed	*3 Ebrill 2025*
Yn dod i rym	*8 Ebrill 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 29(1)(a), (5) a 66(1)(b) o Ddeddf Plant 2004(**1**), a chyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 66(3) o Ddeddf Plant 2004(**3**).

Enwi, cychwyn, dod i ben a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2025 ac maent yn peidio â chael effaith ar 8 Ebrill 2026.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2004 p. 31. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). *Gweler* adran 65(1) o Ddeddf Plant 2004 am y diffiniad o "the Assembly".

(**2**) Gweler adran 29(12) o Ddeddf Plant 2004.

(**3**) Mae paragraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p. 32 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/1388) yn darparu bod y cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn adran 66(3) o Ddeddf Plant 2004 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru bellach).

2025 No. 440 (W. 85)

EDUCATION, WALES

The Children Act 2004 (Children Missing Education Database) (Pilot) (Wales) Regulations 2025

Made	*3 April 2025*
Coming into force	*8 April 2025*

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred by sections 29(1)(a), (5) and 66(1)(b) of the Children Act 2004(**1**), and with the consent of the Secretary of State(**2**), make the following Regulations.

A draft of these Regulations has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru in accordance with section 66(3) of the Children Act 2004(**3**).

Title, commencement, expiry and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Children Act 2004 (Children Missing Education Database) (Pilot) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 8 April 2025 and cease to have effect on 8 April 2026.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) 2004 c. 31. The functions of the National Assembly for Wales under these sections were transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). *See* section 65(1) of the Children Act 2004 for the definition of "the Assembly".

(**2**) See section 29(12) of the Children Act 2004.

(**3**) Paragraph 34 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 c. 32 (as amended by S.I. 2007/1388) provides that the reference to each House of Parliament in section 66(3) of the Children Act 2004 is read as a reference to the National Assembly for Wales (now Senedd Cymru).

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "addysg addas" yr un ystyr â "suitable education" yn adran 436A(3) o Ddeddf 1996;

mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*") yr un ystyr ag yn adran 2 o Ddeddf 2018;

ystyr "awdurdod lleol peilot" ("*pilot local authority*") yw awdurdod lleol yng Nghymru a restrir yn Atodlen 1;

ystyr "awdurdod lleol yng Nghymru" ("*local authority in Wales*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "awdurdod lleol yn Lloegr" ("*local authority in England*") yw—

(a) cyngor sir yn Lloegr;

(b) cyngor dosbarth metropolitanaidd;

(c) cyngor dosbarth anfetropolitanaidd ar gyfer ardal nad oes cyngor sir ar ei chyfer;

(d) cyngor bwrdeistref yn Llundain; ac

(e) Cyngor Cyffredin Dinas Llundain (yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod lleol);

ystyr "cofnod PCA" ("*CME record*"), mewn perthynas â phlentyn, yw'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gronfa ddata PCA ac sy'n ymwneud â'r plentyn hwnnw;

mae i "darpariaeth ddysgu ychwanegol" ("*additional learning provision*") yr un ystyr ag yn adran 3 o Ddeddf 2018;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "Deddf 2018" ("*the 2018 Act*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**2**);

ystyr "disgybl cofrestredig" ("*registered pupil*") yw plentyn sydd wedi ei gofrestru yn ddisgybl mewn ysgol mewn cofrestr a gedwir o dan adran 434 o Ddeddf 1996;

ystyr "y gronfa ddata PCA" ("*the CME database*") yw'r gronfa ddata sydd wedi ei sefydlu a'i gweithredu, neu sydd i'w sefydlu a'i gweithredu, gan awdurdod lleol peilot o dan reoliad 3;

mae i "oedran ysgol gorfodol" yr un ystyr â "compulsory school age" yn adran 8 o Ddeddf 1996(**3**);

(**1**) 1996 p. 56.
(**2**) 2018 dccc 2.
(**3**) Diwygiwyd adran 8 gan adran 52 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996(**1**);

"the 2018 Act" ("*Deddf 2018*") means the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(**2**);

"additional learning needs" ("*anghenion dysgu ychwanegol*") has the same meaning as in section 2 of the 2018 Act;

"additional learning provision" ("*darpariaeth ddysgu ychwanegol*") has the same meaning as in section 3 of the 2018 Act;

"child" ("*plentyn*") means a person of compulsory school age;

"compulsory school age" *("oedran ysgol gorfodol")* has the same meaning as section 8 of the 1996 Act(**3**);

"CME" ("*PCA*") means children missing education;

"the CME database" ("*y gronfa ddata PCA*") means the database established and operated, or to be established and operated, by a pilot local authority under regulation 3;

"CME record" ("*cofnod PCA*"), in relation to a child, means the information relating to that child contained in the CME database;

"local authority in England" ("*awdurdod lleol yn Lloegr*") means—

(a) a county council in England;

(b) a metropolitan district council;

(c) a non-metropolitan district council for an area for which there is no county council;

(d) a London borough council; and

(e) the Common Council of the City of London (in their capacity as a local authority);

"local authority in Wales" ("*awdurdod lleol yng Nghymru*") means the council of a county or county borough in Wales;

"parent" ("*rhiant*") means any person with parental responsibility for the child (within the meaning of section 3 of the Children Act 1989(**4**)) or who has care of the child at any time;

(**1**) 1996 c. 56.
(**2**) 2018 anaw 2.
(**3**) Section 8 was amended by section 52 of the Education Act 1997 (c. 44).
(**4**) 1989 c. 41.

ystyr "PCA" ("*CME*") yw plant sy'n colli addysg;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person o oedran ysgol gorfodol;

ystyr "rhiant" ("*parent*") yw unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn (o fewn yr ystyr a roddir i "parental responsiblity" yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989(**1**)) neu sydd â gofal am y plentyn ar unrhyw adeg;

mae i "ysgol" yr un ystyr â "school" yn adran 4 o Ddeddf 1996(**2**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at berson sydd wedi ei gyflogi yn cynnwys person sydd wedi ei gyflogi pa un ai o dan gontract gwasanaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau, a pherson sydd wedi ei secondio i'r awdurdod lleol peilot o dan sylw.

Sefydlu cronfa ddata PCA

3.—(1) Rhaid i awdurdod lleol peilot sefydlu a gweithredu cronfa ddata PCA.

(2) Pan fodlonir yr amodau ym mharagraff (3) mewn perthynas â phlentyn penodol, rhaid i'r gronfa ddata PCA gynnwys yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 2 ac sydd ar gael i'r awdurdod lleol peilot mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y plentyn yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol peilot,

(b) nad yw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig, ac

(c) ei bod yn ymddangos i'r awdurdod lleol peilot nad yw'r plentyn yn cael addysg addas, neu nad yw'r plentyn o bosibl yn cael addysg addas.

Dyletswydd Bwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC i ddatgelu

4.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo Bwrdd Iechyd Lleol, wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf 2006, neu gontractwr GMC, yn dal unrhyw wybodaeth a bennir ym mharagraffau 1 i 3 o Atodlen 2 mewn perthynas â phlentyn sy'n preswylio fel arfer yn ardal awdurdod lleol peilot.

(2) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC sicrhau bod yr wybodaeth a ddelir ganddo, a bennir ym mharagraffau 1 i 3 o Atodlen 2 mewn perthynas â phlentyn, yn cael ei datgelu i awdurdod lleol peilot perthnasol y plentyn, a hynny erbyn 30 Ebrill 2025.

(**1**) 1989 p. 41.

(**2**) Mae adran 4 wedi ei diwygio gan adran 51 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), Rhan 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), adran 95 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p. 21), paragraff 9 o Atodlen 13 i Ddeddf Addysg 2011 (p. 21) ac O.S. 2019/1027.

"pilot local authority" ("*awdurdod lleol peilot*") means a local authority in Wales listed in Schedule 1;

"registered pupil" ("*disgybl cofrestredig*") means a child registered as a pupil at a school in a register kept under section 434 of the 1996 Act;

"school" ("*ysgol*") has the same meaning as in section 4 of the 1996 Act(**1**);

"suitable education" ("*addysg addas"*) has the same meaning as in section 436A(3) of the 1996 Act.

(2) In these Regulations, any reference to a person employed includes a person employed whether under a contract of service or a contract for services, and a person seconded to the pilot local authority in question.

Establishment of CME database

3.—(1) A pilot local authority must establish and operate a CME database.

(2) Where the conditions in paragraph (3) are met in relation to a particular child, the CME database must include the information set out in Schedule 2 that is available to the pilot local authority in relation to that child.

(3) The conditions are that—

(a) the child is ordinarily resident in the pilot local authority's area,

(b) the child is not a registered pupil, and

(c) it appears to the pilot local authority that the child is not, or may not be, receiving a suitable education.

Local Health Board and GMS contractor duty to disclose

4.—(1) Paragraph (2) applies where a Local Health Board, in the exercise of its functions under Part 4 of the 2006 Act, or a GMS contractor, holds any of the information specified in paragraphs 1 to 3 of Schedule 2 in relation to a child who is usually resident in a pilot local authority's area.

(2) A Local Health Board and a GMS contractor must secure that the information it holds, which is specified in paragraphs 1 to 3 of Schedule 2 in relation to a child, is disclosed to the child's relevant pilot local authority by 30 April 2025.

(**1**) Section 4 has been amended by section 51 of the Education Act 1997 (c. 44), Part 3 of Schedule 22 to the Education Act 2002 (c. 32), section 95 of the Childcare Act 2006 (c. 21), paragraph 9 of Schedule 13 to the Education Act 2011 (c. 21) and S.I. 2019/1027.

(3) "Awdurdod lleol peilot perthnasol" y plentyn yw'r awdurdod lleol peilot y mae'r plentyn yn preswylio fel arfer yn ei ardal.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "contract GMC" ("*GMS contract*") yw contract gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan adran 42 o Ddeddf 2006 (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol: rhagarweiniol);

ystyr "contractwr GMC" ("*GMS contractor*") yw parti i gontract GMC, ac eithrio'r Bwrdd Iechyd Lleol;

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**);

mae i "preswylio fel arfer" ("*usually resident*") yr un ystyr ag yn rheoliad 2(2) a (3) o Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009(**2**).

Y weithdrefn ar gyfer sicrhau cywirdeb gwybodaeth yn y gronfa ddata PCA

5. Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol peilot fod cofnod PCA y mae'n gyfrifol amdano yn anghywir neu'n anghyflawn, neu y gall fod yn anghywir neu'n anghyflawn, rhaid i'r awdurdod lleol peilot gymryd camau rhesymol i gywiro neu gwblhau'r cofnod.

Dileu cofnod PCA pan fo plentyn yn preswylio fel arfer yn rhywle arall

6. Pan ddaw awdurdod lleol peilot yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA bellach yn preswylio fel arfer yn ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru neu awdurdod lleol yn Lloegr ("yr awdurdod lleol derbyn"), neu fod hynny'n debygol o ddigwydd, rhaid iddo—

(a) hysbysu'r awdurdod lleol derbyn am gofnod PCA y plentyn o fewn 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad y daeth yn ymwybodol, a

(b) dileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r plentyn adael ei ardal.

Dileu cofnod PCA pan fo plentyn wedi gadael yr ardal

7. Pan ddaw awdurdod lleol peilot yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA wedi gadael ei ardal ac nad yw'n gwybod ymhle y mae'r plentyn bellach yn preswylio fel arfer, rhaid i'r awdurdod lleol peilot ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2009/1511 (Cy. 147).

(3) The child's "relevant pilot local authority" is the pilot local authority in whose area the child is usually resident.

(4) In this regulation—

"the 2006 Act" (*"Deddf 2006"*) means the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**);

"GMS contract" (*"contract GMC"*) means a general medical services contract under section 42 of the 2006 Act (general medical services contracts: introductory);

"GMS contractor" (*"contractwr GMC"*) means a party to a GMS contract, other than the Local Health Board;

"usually resident" ("*preswylio fel arfer*") has the same meaning as in regulation 2(2) and (3) of the Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) Regulations 2009(**2**).

Procedure for ensuring the accuracy of information in the CME database

5. Where it appears to a pilot local authority that a CME record for which it is responsible is, or may be, inaccurate or incomplete, the pilot local authority must take reasonable steps to correct the inaccuracy or to complete the record.

Removal of a CME record: child is ordinarily resident elsewhere

6. Where a pilot local authority becomes aware that a child whose name is included in the CME database has, or is likely to become, ordinarily resident in the area of another local authority in Wales or a local authority in England ("the receiving local authority") it must—

(a) inform the receiving local authority of the child's CME record within 28 days of the date that it became aware, and

(b) remove that child's CME record from the CME database as soon as reasonably practicable after the child has left its area.

Removal of a CME record: child has left area

7. Where a pilot local authority becomes aware that a child whose name is included in the CME database has left its area and it does not know where the child has become ordinarily resident, the pilot local authority must remove that child's CME record from the CME database as soon as is reasonably practicable.

(**1**) 2006 c. 42.
(**2**) S.I. 2009/1511 (W. 147).

Dileu cofnod PCA pan fo plentyn yn dod yn ddisgybl cofrestredig

8. Pan ddaw awdurdod lleol peilot yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA bellach yn ddisgybl cofrestredig, rhaid i'r awdurdod lleol peilot ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Removal of a CME record: child becomes registered pupil

8. Where a pilot local authority becomes aware that a child whose name is included in the CME database has become a registered pupil, the pilot local authority must remove that child's CME record from the CME database as soon as is reasonably practicable.

Dileu cofnod PCA pan fo plentyn yn cael addysg addas

9. Pan fo awdurdod lleol peilot wedi ei fodloni bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA yn cael addysg addas, rhaid i'r awdurdod lleol peilot ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Removal of a CME record: child is receiving suitable education

9. Where a pilot local authority is satisfied that a child whose name is included in the CME database is receiving a suitable education, the pilot local authority must remove that child's CME record from the CME database as soon as is reasonably practicable.

Dileu cofnod PCA pan fo plentyn wedi marw

10. Pan ddaw awdurdod lleol peilot yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA wedi marw, rhaid i'r awdurdod lleol peilot ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Removal of a CME record: child has died

10. Where a pilot local authority becomes aware that a child whose name is included in the CME database has died, the pilot local authority must remove that child's CME record from the CME database as soon as is reasonably practicable.

Dileu cofnod PCA pan fo plentyn yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol

11. Pan ddaw awdurdod lleol peilot yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol, rhaid i'r awdurdod lleol peilot ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Removal of a CME record: child ceases to be of compulsory school age

11. Where a pilot local authority becomes aware that a child whose name is included in the CME database ceases to be of compulsory school age, the pilot local authority must remove that child's CME record from the CME database as soon as is reasonably practicable.

Mynediad at y gronfa ddata PCA

12.—(1) Dim ond person sydd wedi ei gyflogi gan awdurdod lleol peilot, neu sy'n gweithredu ar ran awdurdod o'r fath, mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau a bennir ym mharagraff (2) a gaiff gael mynediad at y gronfa ddata PCA at ddiben ychwanegu neu ddarllen gwybodaeth.

(2) Y swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw swyddogaethau o dan—

(a) Rhan 6 (derbyniadau ysgol, presenoldeb yn yr ysgol a ffioedd ysgol) o Ddeddf 1996,

Access to the CME database

12.—(1) Only a person employed by, or acting on behalf of, a pilot local authority in relation to the exercise of the functions specified in paragraph (2) may have access to the CME database for the purpose of adding or reading information.

(2) The functions referred to in paragraph (1) are functions under—

(a) Part 6 (school admissions, attendance and charges) of the 1996 Act,

(b) adran 175 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) (dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â lles plant), neu

(c) Rhan 2 (anghenion dysgu ychwanegol) o Ddeddf 2018.

(b) section 175 of the Education Act 2002(**1**) (duties of local authorities and governing bodies in relation to welfare of children), or

(c) Part 2 (additional learning needs) of the 2018 Act.

Lynne Neagle

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
3 Ebrill 2025

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
3 April 2025

(**1**) 2002 p. 32, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 2002 c. 32, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

ATODLEN 1 Rheoliad 2

Awdurdodau Lleol Peilot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Sir Caerdydd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Sir Gwynedd

Cyngor Sir Powys

Cyngor Sir Ynys Môn

SCHEDULE 1 Regulation 2

Pilot Local Authorities

Cardiff County Council

Carmarthenshire County Council

Gwynedd County Council

Isle of Anglesey County Council

Monmouthshire County Council

Powys County Council

Rhondda, Cynon, Taff County Borough Council

ATODLEN 2 Rheoliadau 3 a 4

Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gronfa ddata PCA

1. Enw'r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol).

2. Cyfeiriad y plentyn (neu ei gyfeiriad hysbys diwethaf), gan gynnwys cod post.

3. Dyddiad geni'r plentyn.

4. Enw, cyfeiriad a chod post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost holl rieni'r plentyn.

5. Enw a chyfeiriad y person sy'n darparu'r cyfan neu ran o'r addysg.

6. Unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod gan y plentyn ac unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gelwir amdani.

©ⓑHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

SCHEDULE 2 Regulations 3 and 4

Information to be included in the CME database

1. The child's name (including any former name).

2. The child's address (or last known address) including postcode.

3. The child's date of birth.

4. The name, address and postcode, telephone number and email address of all parents of the child.

5. The name and address of the person providing all or part of the education.

6. Any additional learning needs that the child may have and any additional learning provision that is called for.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39688-1

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/440